

Pysgota
ym Mae Caerdydd

Awdurdod Harbwr Caerdydd





harbwrcaerdydd.com

CARDIFF
CAERDYDD
HARBOUR AUTHORITY
AWDURDOD HARBWR

Pysgota ym Mae Caerdydd

Mae Bae Caerdydd yn cynnig profiad unigryw i bysgotwyr pysgota bras a môr o fewn tafliad carreg i'w gilydd.

Pysgota bras

Mae Bae Caerdydd wedi datblygu'n bysgodfa pysgod bras iach gydag amrywiaeth dda o gynefinoedd a rhywogaethau pysgod i gynnal diddordeb pysgotwyr newydd ac arbenigol. Ymhlith y rhywogaethau sy'n bresennol mae rhufellod, cochgangod, darsod, draenogiaid dŵr croyw, rhuddbysgod, merfogiaid, cerpynnod a phenhwyaid.

Ar hyn o bryd, caniateir pysgota rhwng Parc Morfa'r Grange a Pharc y Sanatoriwm ar Afon Elái, ein llwyfan pysgota yng Nghanolfan Hamdden Trem y Môr ar Afon Taf, ac Arglawdd y Morglawdd, fel y dangosir ar y map ar dudalen 4.

Mae platfform pysgota sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Trem y Môr, ynghyd â pharcio a chyfleusterau hygyrch. Mae'n rhaid i bob pysgotwr 13 oed ac yn hŷn fod â Thrwydded Bysgota Awdurdod Harbwr Caerdydd (AHC). Gellir prynu trwyddedau o Ganolfan Hamdden Trem y Môr a siopau pysgota lleol dethol.

Ewch i www.harbwrcaerdydd.com am fwy o fanylion. Mae gostyngiadau ar gael.

I brynu Trwydded Bysgota AHC, rhaid i bob pysgotwr 13 oed ac yn hŷn feddu ar Drwydded Gwialen Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Gellir dod o hyd i fanylion yn: https://cyfoethnaturiol.cymru/permits-and-permissions/buy-a-fishing-rod-licence?lang=cy

Pysgota môr

Mae pysgota môr ar gael ar Fraich Ogleddol y Morglawdd (gweler y map ar dudalen 4).




Rheolau pysgota bras

1. Mae pysgota heb Drwydded Bysgota ddilys AHC yn drosedd, a all arwain at gosb ariannol. Nid yw Trwydded Bysgota AHC yn drosglwyddadwy. Ni cheir ei benthyca, ei gwerthu na'i throsglwyddo i unrhyw berson arall. Rhaid i Drwyddedau Pysgota AHC fod ar gael i'w harchwilio ar gais gan Swyddog AHC.
2. Er mwyn prynu Trwydded Bysgota AHC, rhaid i bob pysgotwr 13 oed neu'n hŷn gyflwyno Trwydded Gwialen ddilys gan CNC. Mae pysgota heb Drwydded Gwialen CNC yn drosedd, a all arwain at gosb ariannol.
3. Rhaid i bysgotwyr o dan 13 oed fod yng nghwmni oedolyn dros 18 oed sy'n meddu ar Drwydded Bysgota ddilys gan AHC bob amser.
4. Caniateir pysgota o fewn ardaloedd pysgota a ddynodwyd gan AHC yn unig. Mae cynllun manwl ar gael i'w archwilio os nad ydych yn siŵr. Mae pysgota y tu allan i ardal ddynodedig yn drosedd, a all arwain at gosb ariannol.
5. Mae tymor cau pysgota bras ar waith ar Afon Elái o 15 Mawrth i 15 Mehefin. Mae ardaloedd pysgota dynodedig eraill ym Mae Caerdydd ar agor drwy gydol y flwyddyn.
6. Caniateir pysgota o awr cyn codiad haul i awr ar ôl machlud haul yn unig.
7. Ni chaniateir pysgota o gychod nac unrhyw gerbydau dŵr eraill.
8. Ni chaniateir pysgota hamdden (eog a brithyll môr).
9. Rhaid dychwelyd yr holl bysgod sy'n cael eu dal yn fyw i'r dŵr.
10. Ni chaniateir defnyddio abwyd byw.
11. Rhaid glanhau'r holl offer yn drylwyr ar ôl ei ddefnyddio i atal lledaeniad clefydau a rhywogaethau diangen (e.e. misglod rhesog) i ddyfroedd eraill. Ni chaniateir defnyddio rhwydi cadw.
12. Rhaid i bysgotwyr barchu aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys defnyddwyr eraill y dŵr, a chadw aflonyddwch a sŵn cyn lleied â phosibl. Ni ddylai pysgotwyr darfu ar fywyd gwyllt arall na difrodi llystyfiant. Rhaid cadw'r safleoedd yn glir o sbwriel.

Gall unrhyw achos o dorri'r rheolau uchod arwain at ddileu eich Trwydded Bysgota AHC a/neu gall arwain at AHC yn gwrthod rhoi Trwyddedau Pysgota pellach i chi.

Parthau pysgota a ganiateir ym Mae Caerdydd



Allwedd

Ardal pysgota bras
(tymor cau 15 Mawrth – 15 Mehefin)

Ardal pysgota bras
(ar agor drwy gydol y flwyddyn

Ardal pysgota môr
(ar agor drwy gydol y flwyddyn)

Llwybr Bae Caerdydd

Maes parcio

Llwyfan pysgota Canolfan Hamdden Trem y Môr

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Awdurdod Harbwr Caerdydd yn Gymraeg a Saesneg.

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2026

harbwrcaerdydd.com
T: 029 2087 7900
E: HarbwrCaerdydd@caerdydd.gov.uk